# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) |
| **Enw'r Gangen:** | Cangen Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr |
| **Adran:** | Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru |
| **Dyddiad:** | Gorffennaf 2015 |

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




**Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcanion?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bil drafft i ymgynghori arno a fyddai'n creu fframwaith statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Byddai'r fframwaith newydd hwn yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ynghyd â'r drefn asesu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yr amcanion yw creu:

- Un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Proses gydweithredol integredig o asesu a chynllunio sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Bil drafft yn cynnwys yr elfennau canlynol:

<u>Cyflwyno'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'</u>

Mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' i ddisodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu', ac mae'n caniatáu ar gyfer ei ddefnyddio mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o unrhyw oed. At ddibenion y Bil drafft, diffinnir 'plentyn' fel person nad yw dros oed ysgol gorfodol, a diffinnir 'person ifanc' fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.

Bydd defnyddio un term ar draws yr ystod oedran 0-25 yn tanlinellu cydlyniant y system newydd ac yn sicrhau mwy o degwch i ddysgwyr. Bydd hefyd yn helpu i osgoi rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol ac yn nodi toriad clir oddi wrth y systemau presennol.

Ystod oed 0-25

Mae'r Bil drafft yn darparu bod yr un cynllun statudol yn cael ei roi i ddysgwyr ag ADY, p'un a ydynt mewn ysgol neu addysg bellach, neu'n debygol o ddechrau ar addysg o'r fath. Bydd, felly, yn rhoi'r systemau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach ar sail fwy cyfartal a dylai wella'r broses bontio rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16.

Bydd darpariaethau'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol lle mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn nodi bod angen hyn er mwyn diwallu anghenion plentyn neu berson ifanc. Caiff y cyfrifoldeb hwn ei drosglwyddo oddi wrth Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn gwella'r broses bontio drwy annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaeth leol sy'n berthnasol i anghenion unigol plant a phobl ifanc sydd ag ADY, sicrhau cefnogaeth, a gwella'r ddarpariaeth. Byddai hefyd yn fwy o gymhelliad i awdurdodau lleol wneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn hwyluso'r broses i blentyn neu berson ifanc symud ymlaen yn effeithiol i addysg bellach.

Un cynllun

Mae'r Bil drafft yn cyflwyno CDUau statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY. Bydd y CDU yn disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Fel rheol, lle bydd ysgol neu sefydliad yn y sector addysg bellach yn pennu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd yr ysgol neu'r sefydliad yn paratoi, yn cynnal ac yn adolygu CDU ar ei gyfer. Fel rheol, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach fydd yn darparu'r DDdY a nodir yn y CDU. Yn yr achosion hynny lle bydd yn rhaid i'r penderfyniad ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc gael ei wneud y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, neu lle na fyddai'n bosibl iddynt sicrhau'r DDdY sydd ei hangen, neu lle nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i leoliad o'r fath, byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu ar ADY, paratoi ac adolygu'r CDU a sicrhau'r DDdY o'i fewn.

Byddai'n rhaid adolygu CDUau bob 12 mis o leiaf, ond yn ymarferol dylid eu hadolygu pan fo angen, neu yn ôl y gofyn. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn amlach na bob 12 mis.

Lle bydd disgybl neu fyfyriwr sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys yn y CDU – ond yn y pen draw, mater i'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU fyddai sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Byddai'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn gallu stopio gwneud hynny lle nad oedd angen iddynt ei gynnal bellach, neu ei drosglwyddo i gorff arall lle roedd hynny'n briodol (er enghraifft, pe bai plentyn neu berson ifanc yn newid ysgol neu'n symud o ysgol i addysg bellach).

Pan fydd plentyn neu berson ifanc mewn llety cadw ieuenctid perthnasol, mae'r Bil drafft yn darparu, lle tynnir sylw'r awdurdod lleol y gallai fod ganddo ADY, neu lle bydd yr awdurdod lleol cartref yn dod i'r casgliad hwn, a lle nad oes CDU eisoes wedi'i baratoi ar ei gyfer, bydd yn rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes ganddo ADY, ac os felly, a fydd angen, o bosibl, cynnal CDU ar ei gyfer pan gaiff ei ryddhau.

Os bydd gan blentyn neu berson ifanc CDU wrth gyrraedd llety cadw ieuenctid perthnasol, neu os paratoir CDU ar ei gyfer yn ystod ei gyfnod yn y llety, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol cartref gadw'r CDU ar ei gyfer a sicrhau DDdY briodol. Gallai DDdY briodol fod yn wahanol i'r DDdY a nodir yn y CDU nawr ei fod mewn llety o'r fath.

Pan ryddheir plentyn neu berson ifanc sydd â CDU a gadwyd ar ei gyfer yn ystod ei gyfnod yn y llety, a lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano pan gaiff ei ryddhau, yr awdurdod fydd yn gyfrifol am gynnal y CDU.

Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Mae'r Bil drafft yn darparu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn ffurfio elfen hanfodol o'r system newydd ac yn pwysleisio mor bwysig yw hi bod plant a phobl ifanc, a'u rhieni yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r DDdY a ddarperir ar eu cyfer.

Bydd hyn yn rhoi sail statudol i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o ganolbwyntio'n llawer mwy ar yr unigolyn dan sylw wrth nodi anghenion a chamau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny, a bydd yn helpu i sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hwnnw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc ac eraill am ADY a'r system a amlinellir yn y Bil drafft. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i'r grwpiau perthnasol beth yw'r trefniadau hynny, gan sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor hwn yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol a'u bod ar gael i bawb sydd eu hangen.

Er mwyn i blant a phobl ifanc allu arfer yn llawn eu hawl i apelio o dan y Bil drafft hwn, neu gymryd rhan mewn gweithdrefnau datrys anghytundeb, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol iddyn nhw a'u cyfeillion achos. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n cynnig cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc, a'u cyfaill achos, sy'n gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys Addysg; sy'n ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys Addysg o dan yr adran honno; neu sy'n cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Mae'r Bil drafft hefyd yn caniatáu ar gyfer rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer cyfeillion achos sydd am gyflwyno sylwadau ar ran plentyn neu berson ifanc er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundeb ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau o ran ADY, neu sydd am arfer hawliau'r plentyn neu'r person ifanc i apelio i'r Tribiwnlys ar ran y plentyn neu'r person ifanc.

Dyheadau uchel a gwell deilliannau

Mae dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) o fewn pob lleoliad i gydlynu cynlluniau ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY a sicrhau bod safonau sy'n ymwneud â chynllunio, pennu targedau a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u gwella yn hollbwysig i ddatblygu diwylliant o ysgogi dyheadau uchel a gwell deilliannau. I'r perwyl hwn, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol bod pob ysgol a gynhelir (a fydd yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn dynodi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag gosod dysgwr sydd ag ADY mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i ddarparu ar gyfer y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol

sy'n ofynnol er mwyn diwallu'r ADY, yn ôl CDU y dysgwr. Bydd hyn yn lleihau'r risg y caiff dysgwyr ag ADY eu lleoli mewn ysgol annibynnol pan fo hynny'n amhriodol. Bydd Estyn yn monitro ysgolion annibynnol bob blwyddyn, a bydd gan Estyn rôl hefyd yn sicrhau bod ysgolion annibynnol yn gallu darparu'r DDdY y maent wedi'u cofrestru i'w darparu.

Yn yr un modd, caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag gosod  dysgwr mewn coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, oni bai bod y coleg ar restr o golegau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau a amlinellir yn y Bil drafft hwn.

Mae'r Bil drafft yn ailddatgan y rhagdybiaeth ddeddfwriaethol bresennol sydd o blaid addysgu'r rheini sydd ag ADY yn ysgolion y brif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn nid yn unig yn ategu polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar fod yn gynhwysol, ond mae'n tanlinellu ein safbwynt y dylai disgwyliadau ar gyfer y rheini sydd ag ADY, a'r dyheadau ar eu cyfer, fod mor uchel â phosibl.

<u>System symlach a llai gwrthwynebol</u>

Wrth gael gwared â'r rhaniad artiffisial a chynhennus presennol rhwng plant a phobl ifanc sy'n cael datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r diogelwch statudol a ddaw yn sgil hynny, a'r rheini sydd ag anghenion na ystyrir yn ddigon difrifol neu gymhleth i roi cynllun a diogelwch statudol ar eu cyfer, bydd darpariaethau'r Bil drafft sy'n cyflwyno CDUau yn cael gwared ag un o brif achosion tensiwn gwrthwynebol. At hyn, bydd pwyslais y Bil drafft ar gyfraniad plant a'u rhieni a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a datblygu CDUau, yn arwain at fwy o gonsensws wrth gynllunio. Yn olaf, bydd darpariaethau'r Bil Drafft ar CDUau yn arwain y ffordd at broses lai biwrocrataidd a hirwyntog o gynllunio, a ddylai fod yn haws ei deall ac yn llai tebygol o greu gwrthdaro.

<u>Rhagor o gydweithredu</u>

Mae'r Bil drafft yn darparu, lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gwneud cais am gymorth neu wybodaeth oddi wrth awdurdod lleol arall, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, academi, tîm sy'n gweithio gyda throseddwyr ifanc, unigolyn sy'n gyfrifol am lety cadw ieuenctid perthnasol, ymddiriedolaeth GIG, Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Comisiynu GIG, Grŵp Comisiynu Clinigol neu ymddiriedolaeth sefydledig GIG wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ADY, y bydd yn rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny:

a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff ei hun; neu
b) yn cael effaith andwyol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer paratoi, adolygu neu ddiwygio CDUau ar yr un pryd â chynlluniau eraill sy'n ymwneud â'r dysgwr hwnnw. Mae hyn yn rhoi sail ddeddfwriaethol glir i osgoi dyblygu ymdrechion a dryswch sy'n codi lle caiff sawl cynllun ei lunio ar gyfer yr un unigolyn, ac i'w gwneud yn bosibl alinio ac integreiddio prosesau cynllunio gwahanol lawer yn well. Mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn benodol, ac i gydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol iawn o'r plant hynny yn debygol o fod ag ADY, mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu, ymhlith pethau eraill, integreiddio CDUau yn ffurfiol i'r cynlluniau addysgol a fydd ganddynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Bil drafft yn cynnwys dyletswydd newydd ar gyrff iechyd yng Nghymru i ddarparu unrhyw DDdY sydd yn y CDU y maent wedi cytuno i'w darparu. Mae'r ddyletswydd hon yn

gam pwysig ymlaen i sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch pwy fydd yn darparu beth mewn CDU nag a geir yn achos datganiadau AAA ar hyn o bryd.

Mae’r Bil drafft hefyd yn cynnwys dyletswydd newydd ar Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru i benodi swyddog meddygol neu glinigol dynodedig. Rôl y swyddog hwn fydd cydlynu swyddogaethau’r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, a allai gynnwys, er enghraifft, ceisio sicrhau bod yna fodelau gwasanaeth priodol o fewn y BILl; rhoi arweiniad o fewn y BILl i helpu pobl i gyflawni’r dyletswyddau perthnasol; cydgysylltu â phartneriaid a bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol; a chymell a hwyluso gwaith rhyngbroffesiynol effeithiol er budd plant ag ADY.

Yn ogystal, lle bydd corff iechyd yng Nghymru a Lloegr, wrth arfer unrhyw un o’i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan oed ysgol gorfodol, yn dod i’r farn bod ganddo/ganddi ADY (neu ei bod yn debygol bod ganddo/ganddi ADY), bydd y Bil drafft yn rhoi’r disgresiwn iddo ddod â’r mater i sylw’r awdurdod lleol priodol os yw o’r farn mai dyna sydd orau i’r plentyn (a rhoi gwybod i riant y plentyn ei fod yn gwneud hynny).

<u>Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau’n gynharach</u>

Mae’r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a allai godi rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, a chyrff addysgol ar y llall (gan gynnwys cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol). Mae hyn yn cynnwys rhoi mynediad i gymorth i ddatrys anghytundeb gan berson annibynnol. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yn ymwybodol o’r trefniadau hyn. Mae datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i osgoi a datrys anghytundeb yn allweddol er mwyn cynyddu’r ymddiriedaeth sydd gan blant, pobl ifanc a rhieni yn y system a’i gwneud yn llai tebygol y byddant am arfer eu hawliau apelio ar lefel tribiwnlys.

<u>Hawliau clir a chyson i apelio</u>

Mae’r Bil drafft yn ailenwi ac yn ehangu cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig presennol Cymru i ddelio â phobl ifanc hyd at 25 oed. Caiff y Tribiwnlys ei ailenwi’n Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae’r Bil drafft yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau â chyfansoddiad y Tribiwnlys, ei aelodaeth a’i dâl a’i dreuliau. Mae’r enw newydd yn adlewyrchu nid dim ond ei rôl wrth benderfynu ar apeliadau mewn perthynas ag ADY ond hefyd y rôl a gyflawnir ar hyn o bryd gan Dribiwnlys AAA Cymru wrth benderfynu ar hawliau sy’n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion, swyddogaeth y bydd y Tribiwnlys Addysg yn dal i’w chyflawni. Ar hyn o bryd, dim ond plant a phobl ifanc a gofrestrir mewn ysgolion a gynhelir sydd â’r hawl i apelio i Dribiwnlys AAA Cymru mewn perthynas â’u ADY. Bydd y Bil drafft yn cyflwyno hawliau apelio tecach drwy ymestyn yr hawl hon i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy’n mynd i sefydliadau addysg bellach neu sefydliadau ôl-16 arbenigol.

Mae’r Bil drafft yn galluogi plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, neu riant plentyn, i apelio i’r Tribiwnlys Addysg yn erbyn:

a) penderfyniad ynghylch a oes gan berson anghenion dysgu ychwanegol;
b) penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen paratoi a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc;
c) disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person mewn cynllun datblygu unigol;
d) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir mewn cynllun datblygu unigol neu’r ffaith

nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol wedi'i nodi mewn cynllun;

e) yr ysgol a enwir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben trefniadau derbyn neu'r math o ysgol neu sefydliad a nodir yn y cynllun;
f) pam na enwir ysgol neu sefydliad mewn cynllun datblygu unigol;
g) penderfyniad i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynllun datblygu unigol yn dilyn cais i ystyried gwneud hynny;
h) penderfyniad i beidio â diwygio cynllun datblygu unigol;
i) penderfyniad i roi'r gorau i gynnal cynllun datblygu unigol.

Er mai yn niffyg popeth arall y dylid defnyddio'r Tribiwnlys Addysg, bydd yr hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau rhwymol yn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi ADY yn drylwyr ac yn ennyn hyder plant a'u rhieni a phobl ifanc. Bydd hefyd yn helpu i ofalu bod y dyletswyddau mewn perthynas â dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n iawn; bydd yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc ac yn sicrhau mwy o degwch.

Bydd ehangu'r hawliau apelio i gynnwys dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn addysg bellach neu hyfforddiant yn helpu i greu sylfaen ar gyfer ystod oedran newydd y system (0-25) ac yn cyflawni ein hamcan craidd o greu dull tecach.

<u>Cod gorfodol</u>

Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar ADY. Bydd y Cod yn berthnasol i'r rheini sydd â swyddogaethau o dan y Bil drafft hwn a bydd yn gallu gosod:

- (lle nodir yn y Bil drafft) gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i gyrff perthnasol weithredu yn unol â nhw;
- canllawiau y bydd yn rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr eraill addysg a hyfforddiant roi sylw dyledus iddynt.

Bydd creu Cod fel hyn yn sicrhau bod yna gyfres o ffiniau clir, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, ar gyfer y system ADY, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o'u mewn. Bydd y Cod yn targedu ymarferwyr fel y gallant ddeall a gweithredu'r system ADY newydd.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Credwn y bydd y Bil drafft yn cyflawni'r effeithiau positif canlynol ar gyfer dysgwyr o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed:

- **darparu system unedig a chyfartal** ar draws yr ystod oedran 0-25, gwahanol ddarparwyr addysg a gwahanol lefelau angen, gan waredu, felly, unrhyw anghysondeb ac annhegwch; (erthyglau 1 a 3)
- **cyflwyno proses sy'n fwy hyblyg ac sy'n ymateb yn fwy** o asesu parhaus, gan alluogi'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwr unigol i ddatblygu dros amser, a hynny'n unol ag anghenion sy'n newid; (erthyglau 28 a 29)
- **sicrhau dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar unigolion,** rhoi safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc wrth wraidd y broses a'u cynnwys hwy a'u teuluoedd yn y broses

gynllunio, ymyrryd ac adolygu o'r dechrau'n deg; (erthygl 12)

- **darparu gwell cefnogaeth a mynediad at wybodaeth a chyngor** ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn deall y broses sydd ynghlwm wrth ADY a gwneud dewisiadau cytbwys; (erthygl 13)
- **osgoi dyblygu** sy'n deillio o gynlluniau sy'n gwneud yr un peth i bob pwrpas ac integreiddio lle y bo'n bosibl gynlluniau ac ymyriadau presennol a gyflenwir ar gyfer plant a phobl ifanc; (erthygl 3)
- **gwella cydweithio** rhwng asiantaethau er mwyn cynllunio eu hymyriadau, cytuno ar flaenoriaethau, a sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu darparu'n brydlon er mwyn gwneud gwahaniaeth;
- **ei gwneud hi'n llai tebygol fod anghydfodau'n codi** drwy ddatblygu gwaith partneriaeth mwy cadarn gyda rhieni a hybu diwylliant o dryloywder a ddylai annog rhagor o ymddiriedaeth rhwng rhieni, darparwyr addysg ac awdurdodau lleol; (erthyglau 12 a 13)
- **lleihau nifer yr apelau** drwy sicrhau bod anghytundebau'n cael eu datrys cyn gynted â phosibl;
- **cadw ac estyn yr hawl i apelio** i'r Tribiwnlys fel cam diogelu y gellir ei ddefnyddio yn y pen draw o safbwynt digonolrwydd y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, ac nid dim ond y rhai sydd ag anghenion cymhleth. (erthygl 3 a 4)

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) yn ystod haf 2014 er mwyn clywed eu barn, eu teimladau a'u safbwyntiau ynghylch y cynigion. Defnyddiwyd gwahanol ddulliau ymgysylltu yn ystod y gweithdai gan gynnwys chwarae, sesiynau trafod a dadleuon ar sail y fersiwn 'hawdd ei darllen' o'r papur ymgynghori: Cafodd y fersiwn hawdd ei darllen hefyd ei defnyddio gan blant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau ar gyfer cyflwyno eu sylwadau. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn fel sail i'r gwaith o ddatblygu polisi. Cafodd crynodebau o'r ymatebion i'r Papur Gwyn a'r gweithdai eu cyhoeddi ar 14 Hydref 2014 ac maent ar gael yn:
http://wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy.

Caiff yr asesiad effaith hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r Bil. Caiff fersiwn ddrafft o'r Cod ei chyhoeddi yn yr hydref. Bydd cyhoeddi'r dogfennau hyn yn gyfle i randdeiliaid roi eu hadborth a'u sylwadau. Caiff unrhyw adborth a ddaw i law ar y Bil drafft, y Cod drafft a'r dogfennau cysylltiedig eu hystyried a chânt eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi.

Mae ein cynigion yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015. Amcan 3 y strategaeth yw: *Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau'r tlotaf.* Nod ein cynigion yw gwaredu anghydraddoldebau ym maes addysg drwy sicrhau bod modd i bob plentyn a pherson ifanc gyflawni hyd eithaf ei allu. Noda cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru sef 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' fod dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ddwywaith yn fwy tebygol o fod ag angen addysgol arbennig. Bydd gwella'r system yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar ddysgwyr o aelwydydd incwm isel.

Bydd defnyddio ADY fel term unigol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed yn helpu i osgoi rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' a bydd yn nodi toriad

clir oddi wrth y systemau presennol y credwn fod angen eu diwygio'n sylweddol.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc a allai ddeillio o'r cynigion hyn.

**Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?**

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwaith erthyglau canlynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

**Erthygl 1: Mae gan bob un sydd dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.**

Bydd y cynigion yn cyflwyno system gyfartal er mwyn bodloni anghenion plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.**

Bydd y cynigion allweddol yn berthnasol i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, y pennwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol ac sydd mewn un ai ysgol a gynhelir neu addysg bellach.

Bydd y Bil drafft yn sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc ag ADY, y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdanynt, sydd mewn ysgol a gynhelir neu addysg bellach hawl i CDU statudol a fydd yn cefnogi eu dysgu. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb a dilyniant ac yn sicrhau bod darpariaethau a hawliau'n cael eu diogelu, waeth pa mor gymhleth neu ddifrifol yw'r anghenion.

**Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl ac nad yw bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymholiadau ac adolygiadau ynghylch y ddarpariaeth AAA yng Nghymru gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a Chyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pennu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn achosi gwrthdaro. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus, ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn hawdd ei defnyddio. Yn aml caiff anghenion eu pennu'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon nac yn effeithlon. Teimla llawer o deuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro ymhob cam o'r system er mwyn sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plant, ac nid ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

Bydd ein gwaith yn cefnogi camau pennu cynnar ac ymyriadau prydlon, gan sicrhau bod modd i bob plentyn a pherson ifanc gyflawni hyd eithaf ei allu. Er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n gweithio tuag yr hyn sydd orau i bob plentyn, pan fydd awdurdod lleol yn gofyn am gymorth neu wybodaeth gan gorff penodedig arall – gan gynnwys awdurdod lleol arall, corff llywodraethu ysgol a gynhelir, corff GIG, corff llywodraethu sefydliad addysg bellach, tîm sy'n gweithio gyda throseddwyr ifanc neu berson sy'n gyfrifol am unrhyw lety cadw ieuenctid perthnasol - wrth arfer eu swyddogaethau o ran ADY, mae'n rhaid i'r corff

hwnnw gydymffurfio â'r cais, oni bai bod yna amgylchiadau penodedig. Bydd y Cod a fydd yn cyd-fynd â'r Bil drafft ac yn ei ategu yn cynnwys rhagor o gyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol er mwyn cefnogi gwaith amlasiantaeth effeithiol.

**Erthygl 4 – Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.**

Yn sgil Mesur Addysg (Cymru) 2009, diwygiwyd Deddf Addysg 1996 a Deddf Cydraddoldeb 2010 i roi hawl i blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol ynghyd â'i rieni wneud apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ynghylch penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol perthnasol ynghylch anghenion addysgol arbennig y plentyn. Rhoddwyd darpariaethau Mesur 2009 ar waith drwy gynllun peilot cychwynnol mewn 2 ardal awdurdod lleol yng Nghymru (Caerfyrddin a Wrecsam). Cyflwynwyd y darpariaethau hyn ar draws Cymru gyfan ym mis Ionawr 2015, yn dilyn gwerthusiad cadarnhaol o'r rhaglenni peilot.

Mae'r Bil drafft yn parhau i gynnig yr hawl i blant a'u rhieni apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch a oes gan y plentyn ADY ac ynghylch ei CDU.

Bydd darpariaethau'r Bil drafft yn cefnogi ymhellach ac yn hybu hawliau plant a phobl ifanc drwy ehangu'r hawliau apelio hyn i bob unigolyn hyd at 25 oed.

Mae'r Bil drafft hefyd yn rhoi dyletswydd ar y rheini sy'n cyflawni swyddogaethau'r Bil drafft i gynnwys a chefnogi plant a'u rhieni, a phobl ifanc yn y penderfyniadau a wneir o dan y Bil drafft, gan gynnwys wrth ddatblygu'r CDU.

**Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.**

Bydd y Bil drafft yn sicrhau bod llais y plentyn a'r person ifanc wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a gaiff eu gwneud yn eu cylch a bydd y gwaith cynllunio'n sicrhau bod eu hanghenion dysgu ychwanegol yn cael eu bodloni.

Mae'n adeiladu ar waith blaenorol er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei barchu, fel Mesur Addysg (Cymru) 2009, y cyfeirir ato uchod. Fel y nodwyd, mae darpariaethau'r Bil drafft yn ehangu hawliau apelio'r Mesur hwnnw i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae'r Bil drafft hwn yn cryfhau'r hawliau hynny drwy ddarparu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth sefydlu CDU ac wrth ei adolygu. Bydd y Cod yn rhoi mwy o fanylion ynghylch yr hyn a olygir wrth ganolbwyntio ar unigolion wrth gynllunio. Mae'r Bil drafft hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaeth eirioli annibynnol ar gais.

Wrth i Lywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch ei chynigion cyhoeddodd fersiwn i blant o'r Papur Gwyn a chynhaliodd weithdai ar gyfer plant a phobl ifanc a'u rhieni. Daeth 174 o blant a 55 o rieni a gofalwyr i'r gweithdai hyn. Ystyriwyd y rhain wrth i'r Bil drafft gael ei ddatblygu.

**Erthygl 13 – Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.**

Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod plant, pobl ifanc ac eraill yn derbyn gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system a ddisgrifir yn y Bil drafft. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu'r bobl y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt ynghylch y trefniadau hyn a hefyd sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor yn cael eu dosbarthu'n briodol a'i bod yn hawdd i bawb sy'n dymuno eu gweld wneud hynny.

Bydd y gwasanaeth gwybodaeth hwn yn helpu i sicrhau bod cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd (gweler erthygl 12).

**Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.**

O dan ddarpariaethau'r Bil drafft, ystyrir bod gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo ef neu ganddi hi anhawster neu anabledd dysgu sy'n golygu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'r Bil drafft yn darparu bod gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi:

- yn wynebu llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o ddysgwyr eraill o'r un oedran,
- ag anabledd sy'n ei atal neu'n ei gwneud hi'n fwy anodd iddo ddefnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o'r math a ddarperir i ddysgwyr eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd neu sefydliadau prif ffrwd o fewn y sector addysg bellach.

Bydd gan y plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag ADY hawl i dderbyn CDU ynghyd ag unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol fel y gallant gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Os na all anghenion plentyn neu berson ifanc gael eu bodloni mewn ysgol prif ffrwd neu sefydliad addysg bellach prif ffrwd (efallai oherwydd bod gan blentyn neu berson ifanc anabledd ac ADY difrifol a/neu gymhleth) gall yr awdurdod lleol ei leoli mewn lleoliad annibynnol fel y bo angen ac fel y bo'n briodol.

Bydd y Bil drafft yn atgyfnerthu'r drefn gofrestru bresennol er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol bod plentyn neu berson ifanc ag ADY wedi'i osod mewn lleoliad priodol.

**Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg, Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.**

Bydd y cynigion hyn yn berthnasol i bob dysgwr rhwng 0 a 25 mlwydd oed sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru er mwyn galluogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol i gyflawni hyd eithaf eu gallu, a hynny yn yr un modd â dysgwyr nad oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynigion yn cynrychioli newid bwriadol o system AAA sydd wedi hen ddyddio i ddull mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu natur amrywiol anghenion dysgu'n well.

**Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.**

Mae'r cynigion hyn yn seiliedig ar y syniad y dylai pob plentyn a pherson ifanc gyflawni hyd eithaf ei allu. Bydd y CDU statudol yn helpu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ag ADY yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arno i gyflawni hyd eithaf ei allu.

**Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog**

Mae'r cyngor i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n cadarnhau bod yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau. Nid oes unrhyw wrthdaro ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i nodi.

**Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad**

Caiff yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft.

**Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen**

Wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, rhoddir ystyriaeth bellach i effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd hyn yn cynnwys Asesiad Effaith ffurfiol a ddefnyddir i asesu effeithiau posibl y polisi maes o law.

**<u>Cyllidebau</u>**

| **O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?** | **Nac oes** |
|---|---|
| **Rhowch unrhyw fanylion:**<br>Nid yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi nodi unrhyw effaith ar y gyllideb. Bydd dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn yn rhan o asesiad effaith rheoleiddiol drafft a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Bil drafft. | |

**<u>Monitro ac Adolygu</u>**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | **Oes** |
| **Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu** | **2016** |

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau'r CCUHP**

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
**www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:
**www.cliconline.co.uk/cym/newyddion**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents**

WG16876

## Erthygl 1
Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

## Erthygl 2
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

## Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

## Erthygl 4
Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

## Erthygl 5
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

## Erthygl 6
Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

## Erthygl 7
Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

## Erthygl 8
Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

## Erthygl 9
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

## Erthygl 10
Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

## Erthygl 11
Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

## Erthygl 12
Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

## Erthygl 13
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

## Erthygl 14
Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

## Erthygl 15
Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

## Erthygl 16
Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

## Erthygl 17
Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

## Erthygl 18
Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

## Erthygl 19
Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

## Erthygl 20
Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

## Erthygl 21
Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

## Erthygl 22
Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

## Erthygl 23
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

## Erthygl 24
Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 25
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

## Erthygl 26
Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

## Erthygl 27
Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

## Erthygl 28
Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 29
Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

## Erthygl 30
Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

## Erthygl 31
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

## Erthygl 32
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

## Erthygl 33
Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

## Erthygl 34
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

## Erthygl 35
Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

## Erthygl 36
Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

## Erthygl 37
Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

## Erthygl 38
Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

## Erthygl 39
Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

## Erthygl 40
Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

## Erthygl 41
Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

## Erthygl 42
Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.

# Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| Teitl y polisi a’i ddiben (amlinelliad cryno): | **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** |
| Adran: | **Yr Adran Addysg a Sgiliau** |
| Dyddiad: | **Gorffennaf 2015** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.**<br><br>**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?** |

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bil drafft i ymgynghori arno a fyddai'n creu fframwaith statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Byddai'r fframwaith newydd hwn yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ynghyd â'r drefn asesu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yr amcanion yw creu:

- Un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Proses gydweithredol integredig o asesu a chynllunio sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r tri amcan cyffredinol hyn mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu deg nod craidd a fydd yn sail i ddarpariaethau'r Bil drafft. Dyma'r nodau:

- Cyflwyno'r term ADY
- Ystod oedran 0-25
- Un cynllun
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy
- Dyheadau uchel a gwell deilliannau
- System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro
- Rhagor o gydweithredu
- Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach
- Hawliau clir a chyson i apelio
- Cod gorfodol

**2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Mae gwaith ymgysylltu wedi mynd rhagddo'n gyson â phob rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys plant, rhieni/gofalwyr, pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a'r trydydd sector wrth i'r polisïau sy'n sail i'r Bil drafft gael eu datblygu. Cynhaliodd Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghoriad cychwynnol ac eang ei gwmpas yn 2007 yn dilyn ei adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2012 ynghylch gweledigaeth eang o system ddiwygiedig sef *Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol*. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2013. Gallwch weld yr ymgynghoriad a'r crynodeb o'r ymatebion yma:
http://wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=cy

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru yn ogystal gyfres o weithdai yn hydref 2013 ac mae wedi parhau i gyfnewid syniadau gyda gwahanol randdeiliaid a grwpiau proffesiynol er mwyn pennu ffyrdd ymarferol a realistig o ddiwygio mewn modd effeithiol a fydd yn parhau.
Ceir crynodeb o drafodaethau'r gweithdai ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/additional-learning-needs-reform/?lang=cy

Gan adeiladu ar ganlyniad yr ymgynghoriad blaenorol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ym mis Mai 2014 a amlinellodd gynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Cafodd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu eu cynnal ar gyfer plant a phobl ifanc (gan gynnwys rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA)/anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ogystal er mwyn sicrhau cyfle iddynt leisio eu barn. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant, pobl ifanc a'r rhai ag anawsterau dysgu.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 25 Gorffennaf 2014.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 14 Hydref a gallwch ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru. Gallwch hefyd weld crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc:

http://gov.wales/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy

Ym mis Ionawr 2015 cynhaliwyd gweithdai ynghylch y Cynllun Datblygu Unigol arfaethedig (sef y cynllun y mae'r Bil drafft yn ceisio ei gyflwyno fel cynllun statudol)

ac ynghylch gwaith monitro effaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm wrth gefnogi dysgwyr ag ADY. Defnyddiwyd yr adborth wrth i'r Cod ADY arfaethedig drafft gael ei ddatblygu.

Mae Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn cefnogi gwaith datblygu'r diwygiadau ym maes ADY. Cafodd y cyfarfodydd hyn eu defnyddio ar gyfer llywio gwaith polisi a sicrhau rhagor o eglurder a manylion ynghylch ein cynigion. Casgliad o grwpiau o fewn y Trydydd Sector yw Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector sy'n cynrychioli/cefnogi plant/pobl ifanc sydd â gwahanol ADY.

Mae'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr hefyd wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid amrywiol iawn sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc ag ADY neu sy'n cynrychioli eu buddiannau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg – cynhaliwyd gweithdy diwrnod gyda seicolegwyr addysg o wahanol awdurdodau lleol yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'i is-grŵp ar Gynhwysiant
- NATSPEC (cymdeithas colegau arbenigol annibynnol)
- Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu
- Panel Ymarferwyr Ysgol
- Colegau Cymru Colleges Wales – cynhaliwyd gweithdy gyda'i rwydwaith o ymarferwyr ym maes anawsterau a/neu anableddau dysgu
- Grwpiau Cydlynwyr AAA
- Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar
- Cymdeithasau Penaethiaid Ysgolion Arbennig De a Gogledd Cymru (cynhadledd genedlaethol) – ysgolion arbenigol sy'n aelodau
- Grŵp Partneriaeth Undeb
- Estyn
- Comisiynydd Plant Cymru

Caiff yr asesiad effaith hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r Bil. Caiff fersiwn ddrafft o'r Cod ei chyhoeddi yn yr hydref. Bydd cyhoeddi'r dogfennau hyn yn gyfle i randdeiliaid roi eu hadborth a'u sylwadau. Caiff unrhyw adborth a ddaw i law ar y Bil drafft, y Cod drafft a'r dogfennau cysylltiedig eu hystyried a chânt eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi.

**3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Mae'r penderfyniad i ddiwygio'r system bresennol ar gyfer AAA yn seiliedig ar dystiolaeth eang ei chwmpas o gyfres o adroddiadau ac adolygiadau ynghyd ag ymgynghoriad blaenorol a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Caiff hyn ei ddisgrifio yn yr ateb i gwestiwn 2.

Rhwng 2003 a 2007 cynhaliwyd adolygiad tair rhan o AAA gan gyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd adroddiadau cysylltiedig eu cyhoeddi yn y drefn ganlynol:
a) *Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar*, Tachwedd 2004;
b) *Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*, Mai 2006;
c) *Trosglwyddo*, Mawrth 2007.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar adroddiadau cynharach gan y Comisiwn Archwilio (Anghenion addysgol arbennig: Mater prif ffrwd, 2002) ac Estyn (Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg Estyn, 2003). Gyda'i gilydd, daeth yr adroddiadau hyn i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer AAA:
- mae'r broses asesu sy'n gysylltiedig â datganiadau'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd, yn gostus, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn ac nid yw'n hawdd ei defnyddio;
- weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n brydlon nac yn effeithiol;
- dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt yn aml frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd ymgynghoriad cychwynnol ac eang ei gwmpas ar ddiwygiadau posibl i'r system bresennol o gefnogaeth ar gyfer AAA ac AAD (Datganiadau neu Rywbeth Gwell, 2007). Wedi hynny, sefydlwyd nifer o brosiectau i ddatblygu a threialu systemau a dulliau newydd er mwyn llywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- pedwar cynllun peilot ar gyfer diwygio yn cynnwys wyth awdurdod lleol. Y nod oedd datblygu a threialu dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion (gan ddefnyddio CDU) ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA ynghyd â system newydd ar gyfer sicrhau ansawdd ac offeryn ar-lein ar gyfer cynllunio ac asesu;
- cynllun peilot 'hawl apelio i'r plentyn' yn cynnwys dau awdurdod lleol.

Ceir gwerthusiad o'r cynlluniau peilot ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy

Mae'r ymatebion i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch *Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol* (2012) a'r Papur

Gwyn (2014), ynghyd â’r cydweithio â gwahanol randdeiliaid a ddisgrifir uchod o dan gwestiwn 2, yn sail i ddatblygiad y Bil drafft arfaethedig.

| 4.1 | A ydych chi’n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed? |
|---|---|

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau<br><br>(*Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed*) | Cadarnhaol | | | Mae’r Bil ADY drafft yn canolbwyntio ar adnabod ADY yn gynnar ac yn brydlon, cynllunio a chyflenwi darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer bodloni ADY y plentyn neu’r person ifanc.<br><br>Mae’r Bil drafft yn berthnasol i blant ag ADY o’u geni hyd nes y byddant yn 25 oed ac i leoliadau cyn ysgol, ysgolion a lleoliadau Addysg Bellach. Mae defnyddio ADY fel term unigol sy’n cynnwys yr ystod oedran ehangach yn adlewyrchu’r trosglwyddiad i system fwy cyfartal ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a lleoliadau addysg bellach.<br><br>Bydd y Bil drafft yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. |
| Pobl 18- 50 oed | Cadarnhaol | | | Mae’r Bil drafft yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed sy’n mynychu ysgol neu leoliad Addysg Bellach.<br>Ar hyn o bryd nid oes gan bobl ifanc sy’n cael eu haddysgu mewn lleoliad Addysg Bellach hawl i gynlluniau datblygu statudol a fyddai’n eu cefnogi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pobl hŷn (50+) | | | Dim | Mae ein cynigion yn cefnogi plant a phobl ifanc o'u geni hyd nes y byddant yn 25 oed sydd ag ADY er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Nid yw'r Bil yn berthnasol i bobl hŷn. |

**4.2 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu bod yn anabl?**

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol | | | Mae'r Bil ADY drafft yn seiliedig ar yr angen i sicrhau bod anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yn cael eu bodloni. Mae gan berson ADY os oes ganddo anhawster neu anabledd sy'n golygu bod angen trefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Er na fyddai gan bob plentyn a pherson ifanc sydd â'r namau a restrir gyferbyn ADY, os oes ganddynt ADY yn sgil eu nam neu'n ychwanegol ato byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Mae'r cynigion yn sicrhau diogelwch statudol ar gyfer ystod eang o ddysgwyr. Ar hyn o bryd mae'r dysgwyr sydd ag anghenion llai difrifol neu gymhleth yn derbyn cynllun anstatudol. Mae'r rhai mewn Addysg Bellach sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu hefyd yn derbyn cynllun anstatudol. Bydd y Bil ADY drafft yn sicrhau bod gan bob dysgwr sydd ag ADY hawl i Gynllun statudol, sef y Cynllun Datblygu Unigol (CDU), pa mor ddifrifol neu gymhleth bynnag yw ei anghenion. |
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol | | | |
| Anabledd corfforol | Cadarnhaol | | | |
| Anabledd dysgu | Cadarnhaol | | | |
| Problem iechyd meddwl | Cadarnhaol | | | |
| Namau eraill | Cadarnhaol | | | |

**4.3 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?**

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | | | Dim | Nid yw'r Bil ADY drafft yn ymwneud â rhyw penodol. Nod y Bil drafft yw cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. |
| Benyw | | | Dim | |

**4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?**

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Dim | Nod ein cynigion yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu, gan gynnwys pobl drawsrywiol. Nid yw'r cynigion yn ymwneud â rhyw penodol. |

**4.5 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?**

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | | | Dim | Nod ein cynigion yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Ni fydd hyn yn effeithio ar sefydliad priodas na phartneriaeth sifil ac ni fydd yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y rhai sydd mewn priodas/partneriaeth sifil. |
| Partneriaeth Sifil | | | Dim | |

**4.6 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?**

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | | Dim | Nod ein cynigion yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Ni fydd hyn yn effeithio ar ferched sy'n feichiog nac ar ferched sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar. |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | | | Dim | |

**4.7 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hil?**

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du) | | | Dim | Nid yw'r Bil ADY drafft yn ymwneud yn benodol â hil. Ei nod yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | | | Dim | |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | | | Dim | |
| Sipsiwn a Theithwyr | | | Dim | |
| Mudwyr | | | Dim | |
| Eraill | | | Dim | |

**4.8 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?**

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol gan gynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | | | Dim | Nod y Bil drafft yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc oherwydd eu crefydd a'u cred neu eu diffyg cred. |
| Cred e.e. Dyneiddwyr | | | Dim | |
| Diffyg cred | | | Dim | |

**4.9 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?**

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | | | Dim | Nod y Bil drafft yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. |
| Lesbiaid | | | Dim | |
| Deurywiol | | | Dim | |

**4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?**

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | Cadarnhaol | | | Nod y Bil drafft yw cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae Asesiad Effaith ar wahân wedi'i gwblhau ynghylch Hawliau Plant a daeth i'r casgliad y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol. Caiff Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r asesiad hwn a'r Bil drafft ar wefan Llywodraeth Cymru.<br><br><u>Hawliau dynol</u><br><br>Mae erthygl 2, protocol 1 yn gymwys. Ystyrir bod yr hawl i addysg wedi'i ymgorffori yn y bil drafft. Bydd y bil drafft yn caniatáu ar gyfer rhoi cymorth ychwanegol i'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Nodwyd bod ail frawddeg E2 P1 yn nodi bod yr hawliau a roddir i rieni yn cynnwys yr hawl i sicrhau bod y wladwriaeth yn parchu credoau crefyddol/athronyddol. Rydym yn ystyried bod yr hawl hon sydd gan rieni (sy'n eilradd i hawl y plentyn i gael addysg (uchod)) wedi'i hadlewyrchu yn y Bil drafft arfaethedig.<br><br>Mae erthygl 6 yn gymwys. Mae'r Bil drafft yn sefydlu hawl i apelio i dribiwnlys diduedd. Yn y broses o benderfynu ar hawliau sifil, mae gan bawb hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus o fewn cyfnod rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd gan y gyfraith. Yr hawl i gael CDU priodol (er enghraifft) yw un o'r hawliau sydd wedi'u diogelu o dan y bil drafft. Mae'n rhoi hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | apelio. Lle ystyrir bod unrhyw un o hawliau rhieni o dan erthygl 2, protocol 1 yn gymwys, caiff ei pharchu i'r graddau priodol gan y system apelio a sefydlir gan y Bil drafft. Gellir cyfleu safbwyntiau'r rhieni a'r plentyn i'r tribiwnlys annibynnol. Mae hyn yn cadw'r cydbwysedd cywir rhwng erthygl 2, protocol 1 ac erthygl 8. |

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2**

## 1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

| 1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal? |
|---|
| Nod y Bil drafft yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yn cyflawni hyd eithaf ei allu. Mae hyn yn seiliedig ar bolisi ehangach o fewn AdAS lle dylai pob plentyn a pherson ifanc allu cyflawni hyd eithaf ei allu a derbyn cyfle cyfartal, beth bynnag yw'r heriau a'r rhwystrau.<br><br>Dylai'r fframwaith deddfwriaethol drafft gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol sy'n cael eu cynnig iddynt.<br><br>Yn ogystal, mae'r cynigion yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni i chwarae rhan fwy amlwg mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy. Mae hyn yn cynnwys sefyllfa lle y mae plentyn, person ifanc neu riant yn wynebu rhwystrau penodol wrth fynegi ei farn. Er enghraifft, mae'r Bil drafft yn cynnig rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY. Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol hefyd wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. |
| **1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?** |
| Yn wahanol i'r system bresennol, bydd y Bil drafft yn sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY hawl i CDU statudol. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb a dilyniant ac yn golygu bod darpariaethau a hawliau dysgu ychwanegol yn cael eu diogelu, pa mor ddifrifol neu gymhleth bynnag yw'r anghenion. Gan y bydd y Bil drafft yn berthnasol i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed ag ADY mewn sefydliadau addysg perthnasol, dylai'r broses o drosglwyddo dysgwyr rhwng ysgolion a sefydliadau ôl-16 fod yn well. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gydraddoldeb o ran cefnogaeth a hawliau i'r grŵp hwn o ddysgwyr. Mae'r Bil drafft hefyd yn sicrhau bod gan blant, rhieni plant a phobl ifanc hawl i apelio os ydynt yn teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni.<br><br>Bydd defnyddio ADY fel term unigol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed yn helpu i osgoi peth o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'.<br><br>Bydd y Bil drafft yn helpu i waredu unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn plant a phobl ifanc sydd ag ADY drwy gefnogi system i fodloni anghenion pob plentyn a pherson ifanc ag ADY. |

| 1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach? |
|---|
| Mae ein cynigion yn helpu i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael eu bodloni mewn lleoliad addysg. Mae'r cynigion yn creu system unedig a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o un lleoliad addysgol i'r llall (fel ysgolion a sefydliadau addysg bellach). Maent hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddatblygu'n oedolion – gallai hyn gynnwys eu cefnogi i fyw'n annibynnol a'u cynorthwyo i ddod yn rhan o'u cymuned ehangach.<br><br>Dylai cefnogi plentyn/person ifanc sydd ag ADY i gyflawni hyd eithaf ei allu ei gynorthwyo i ddatblygu'n aelod brwd o'r gymuned. Bydd hyn yn gwella cydlyniant o fewn cymunedau. |

## 2. Cryfhau'r polisi

| 2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?<br>Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1? |
|---|
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u pennu. |

| 2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.<br>(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.) |
|---|
| Amherthnasol |

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

| **Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?** Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgyngoriadau, monitro penodol ac ati). |
| --- |
| Wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, rhoddir ystyriaeth bellach i'r effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys Asesiad Effaith ffurfiol a ddefnyddir i asesu effeithiau posibl y polisi maes o law.<br><br>Caiff yr asesiad effaith hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r Bil. Caiff fersiwn ddrafft o'r Cod ei chyhoeddi yn yr hydref. Bydd cyhoeddi'r dogfennau hyn yn gyfle i randdeiliaid roi eu hadborth a'u sylwadau. Caiff unrhyw adborth a ddaw i law ar y Bil drafft, y Cod drafft a'r dogfennau cysylltiedig eu hystyried a chânt eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi. |

## 4. Datganiad

## Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb

| |
|---|
| **Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
| Adran: |
| **Y Gangen Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Yr Adran Addysg a Sgiliau** |
| Dyddiad: |
| **Mehefin 2015** |
| **Pennaeth Adran (Llofnod)** |
| Teitl swydd ac adran: |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymorth i Ddysgwyr** |
| Dyddiad: |
| **Mehefin 2015** |

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**: Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad** *(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: 15/03/01 |
| **Dyddiad**: | Adolygwyd ddiwethaf Mehefin 2015 |
| **Manylion cyswllt**: | SENReforms@Wales.GSI.Gov.UK |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth a ragwelir fydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?**
Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Dros £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ✓☐ | ☐ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?**

Mae ystyriaeth gynhwysfawr o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn yn rhan o asesiad effaith rheoleiddiol drafft a gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft.

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Dros 10 mlynedd | Nid ydym yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Gorffennaf 2015 – cyhoeddi'r Bil drafft a'r dogfennau atodol
Hydref 2015 – cyhoeddi'r Cod drafft

**CAM 1: CYNLLUNIO**

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bil drafft i ymgynghori arno a fyddai'n creu fframwaith statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Byddai'r fframwaith newydd hwn yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ynghyd â'r drefn asesu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yr amcanion yw creu:

- Un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Proses gydweithredol integredig o asesu a chynllunio sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Bil drafft yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Cyflwyno'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'

Mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' i ddisodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu', ac mae'n caniatáu ar gyfer ei ddefnyddio mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o unrhyw oed. At ddibenion y Bil drafft, diffinnir 'plentyn' fel person nad yw dros oed ysgol gorfodol, a diffinnir 'person ifanc' fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.

Bydd defnyddio un term ar draws yr ystod oedran 0-25 yn tanlinellu cydlyniant y system newydd ac yn sicrhau mwy o degwch i ddysgwyr. Bydd hefyd yn helpu i osgoi rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol ac yn nodi toriad clir oddi wrth y systemau presennol.

Ystod oed 0-25

Mae'r Bil drafft yn darparu bod yr un cynllun statudol yn cael ei roi i ddysgwyr ag ADY, p'un a ydynt mewn ysgol neu addysg bellach, neu'n debygol o ddechrau ar addysg o'r fath. Bydd, felly, yn rhoi'r systemau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach ar sail fwy cyfartal a dylai wella'r broses bontio rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16.

Bydd darpariaethau'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol lle mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn nodi bod angen hyn er mwyn diwallu anghenion plentyn neu berson ifanc. Caiff y cyfrifoldeb hwn ei drosglwyddo oddi wrth Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn gwella'r broses bontio drwy annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaeth leol sy'n berthnasol i anghenion unigol plant a phobl ifanc sydd ag ADY, sicrhau cefnogaeth, a gwella'r ddarpariaeth. Byddai hefyd yn fwy o gymhelliad i awdurdodau lleol wneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn hwyluso'r broses i blentyn neu berson ifanc symud ymlaen yn effeithiol i addysg bellach.

Un cynllun

Mae'r Bil drafft yn cyflwyno CDUau statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY. Bydd y CDU yn disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Fel rheol, lle bydd ysgol neu sefydliad yn y sector addysg bellach yn pennu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd yr ysgol neu'r sefydliad yn paratoi, yn cynnal ac

yn adolygu CDU ar ei gyfer. Fel rheol, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach fydd yn darparu'r DDdY a nodir yn y CDU. Yn yr achosion hynny lle bydd yn rhaid i'r penderfyniad ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc gael ei wneud y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, neu lle na fyddai'n bosibl iddynt sicrhau'r DDdY sydd ei hangen, neu lle nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i leoliad o'r fath, byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu ar ADY, paratoi ac adolygu'r CDU a sicrhau'r DDdY o'i fewn.

Byddai'n rhaid adolygu CDUau bob 12 mis o leiaf, ond yn ymarferol dylid eu hadolygu pan fo angen, neu yn ôl y gofyn. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn amlach na bob 12 mis.

Lle bydd disgybl neu fyfyriwr sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys yn y CDU – ond yn y pen draw, mater i'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU fyddai sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Byddai'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn gallu stopio gwneud hynny lle nad oedd angen iddynt ei gynnal bellach, neu ei drosglwyddo i gorff arall lle roedd hynny'n briodol (er enghraifft, pe bai plentyn neu berson ifanc yn newid ysgol neu'n symud o ysgol i addysg bellach).

Pan fydd plentyn neu berson ifanc mewn llety cadw ieuenctid perthnasol, mae'r Bil drafft yn darparu, lle tynnir sylw'r awdurdod lleol y gallai fod ganddo ADY, neu lle bydd yr awdurdod lleol cartref yn dod i'r casgliad hwn, a lle nad oes CDU eisoes wedi'i baratoi ar ei gyfer, bydd yn rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes ganddo ADY, ac os felly, a fydd angen, o bosibl, cynnal CDU ar ei gyfer pan gaiff ei ryddhau.

Os bydd gan blentyn neu berson ifanc CDU wrth gyrraedd llety cadw ieuenctid perthnasol, neu os paratoir CDU ar ei gyfer yn ystod ei gyfnod yn y llety, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol cartref gadw'r CDU ar ei gyfer a sicrhau DDdY briodol. Gallai DDdY briodol fod yn wahanol i'r DDdY a nodir yn y CDU nawr ei fod mewn llety o'r fath.

Pan ryddheir plentyn neu berson ifanc sydd â CDU a gadwyd ar ei gyfer yn ystod ei gyfnod yn y llety, a lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano pan gaiff ei ryddhau, yr awdurdod fydd yn gyfrifol am gynnal y CDU.

Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Mae'r Bil drafft yn darparu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn ffurfio elfen hanfodol o'r system newydd ac yn pwysleisio mor bwysig yw hi bod plant a phobl ifanc, a'u rhieni yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r DDdY a ddarperir ar eu cyfer.

Bydd hyn yn rhoi sail statudol i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o ganolbwyntio'n llawer mwy ar yr unigolyn dan sylw wrth nodi anghenion a chamau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny, a bydd yn helpu i sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hwnnw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc ac eraill am ADY a'r

system a amlinellir yn y Bil drafft. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i'r grwpiau perthnasol beth yw'r trefniadau hynny, gan sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor hwn yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol a'u bod ar gael i bawb sydd eu hangen.

Er mwyn i blant a phobl ifanc allu arfer yn llawn eu hawl i apelio o dan y Bil drafft hwn, neu gymryd rhan mewn gweithdrefnau datrys anghytundeb, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol iddyn nhw a'u cyfeillion achos. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n cynnig cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc, a'u cyfaill achos, sy'n gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys Addysg; sy'n ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys Addysg o dan yr adran honno; neu sy'n cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Mae'r Bil drafft hefyd yn caniatáu ar gyfer rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer cyfeillion achos sydd am gyflwyno sylwadau ar ran plentyn neu berson ifanc er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundeb ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau o ran ADY, neu sydd am arfer hawliau'r plentyn neu'r person ifanc i apelio i'r Tribiwnlys ar ran y plentyn neu'r person ifanc.

Dyheadau uchel a gwell deilliannau

Mae dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) o fewn pob lleoliad i gydlynu cynlluniau ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY a sicrhau bod safonau sy'n ymwneud â chynllunio, pennu targedau a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u gwella yn hollbwysig i ddatblygu diwylliant o ysgogi dyheadau uchel a gwell deilliannau. I'r perwyl hwn, mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol bod pob ysgol a gynhelir (a fydd yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn dynodi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag gosod dysgwr sydd ag ADY mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i ddarparu ar gyfer y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn diwallu'r ADY, yn ôl CDU y dysgwr. Bydd hyn yn lleihau'r risg y caiff dysgwyr ag ADY eu lleoli mewn ysgol annibynnol pan fo hynny'n amhriodol. Bydd Estyn yn monitro ysgolion annibynnol bob blwyddyn, a bydd gan Estyn rôl hefyd yn sicrhau bod ysgolion annibynnol yn gallu darparu'r DDdY y maent wedi'u cofrestru i'w darparu.

Yn yr un modd, caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag gosod dysgwr mewn coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, oni bai bod y coleg ar restr o golegau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau a amlinellir yn y Bil drafft hwn.

Mae'r Bil drafft yn ailddatgan y rhagdybiaeth ddeddfwriaethol bresennol sydd o blaid addysgu'r rheini sydd ag ADY yn ysgolion y brif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn nid yn unig yn ategu polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar fod yn gynhwysol, ond mae'n tanlinellu ein safbwynt y dylai disgwyliadau ar gyfer y rheini sydd ag ADY, a'r dyheadau ar eu cyfer, fod mor uchel â phosibl.

System symlach a llai gwrthwynebol

Wrth gael gwared â'r rhaniad artiffisial a chynhennus presennol rhwng plant a phobl

ifanc sy'n cael datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r diogelwch statudol a ddaw yn sgil hynny, a'r rheini sydd ag anghenion na ystyrir yn ddigon difrifol neu gymhleth i roi cynllun a diogelwch statudol ar eu cyfer, bydd darpariaethau'r Bil drafft sy'n cyflwyno CDUau yn cael gwared ag un o brif achosion tensiwn gwrthwynebol. At hyn, bydd pwyslais y Bil drafft ar gyfraniad plant a'u rhieni a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a datblygu CDUau, yn arwain at fwy o gonsensws wrth gynllunio. Yn olaf, bydd darpariaethau'r Bil Drafft ar CDUau yn arwain y ffordd at broses lai biwrocrataidd a hirwyntog o gynllunio, a ddylai fod yn haws ei deall ac yn llai tebygol o greu gwrthdaro.

Rhagor o gydweithredu

Mae'r Bil drafft yn darparu, lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gwneud cais am gymorth neu wybodaeth oddi wrth awdurdod lleol arall, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, academi, tîm sy'n gweithio gyda throseddwyr ifanc, person sy'n gyfrifol am lety cadw ieuenctid perthnasol, ymddiriedolaeth GIG, Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Comisiynu GIG, Grŵp Comisiynu Clinigol neu ymddiriedolaeth sefydledig GIG wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ADY, y bydd yn rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny:

a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff ei hun; neu
b) yn cael effaith andwyol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer paratoi, adolygu neu ddiwygio CDUau ar yr un pryd â chynlluniau eraill sy'n ymwneud â'r dysgwr hwnnw. Mae hyn yn rhoi sail ddeddfwriaethol glir i osgoi dyblygu ymdrechion a dryswch sy'n codi lle caiff sawl cynllun ei lunio ar gyfer yr un unigolyn, ac i'w gwneud yn bosibl alinio ac integreiddio prosesau cynllunio gwahanol lawer yn well. Mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn benodol, ac i gydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol iawn o'r plant hynny yn debygol o fod ag ADY, mae'r Bil drafft yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu, ymhlith pethau eraill, integreiddio CDUau yn ffurfiol i'r cynlluniau addysgol a fydd ganddynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Bil drafft yn cynnwys dyletswydd newydd ar gyrff iechyd yng Nghymru i ddarparu unrhyw DDdY sydd yn y CDU y maent wedi cytuno i'w darparu. Mae'r ddyletswydd hon yn gam pwysig ymlaen i sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch pwy fydd yn darparu beth mewn CDU nag a geir yn achos datganiadau AAA ar hyn o bryd.

Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnwys dyletswydd newydd ar Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru i benodi swyddog meddygol neu glinigol dynodedig. Rôl y swyddog hwn fydd cydlynu swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, a allai gynnwys, er enghraifft, ceisio sicrhau bod yna fodelau gwasanaeth priodol o fewn y BILl; rhoi arweiniad o fewn y BILl i helpu pobl i gyflawni'r dyletswyddau perthnasol; cydgysylltu â phartneriaid a bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol; a chymell a hwyluso gwaith rhyngbroffesiynol effeithiol er budd plant ag ADY.

Yn ogystal, lle bydd corff iechyd yng Nghymru a Lloegr, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan oed ysgol gorfodol, yn dod i'r farn bod ganddo/ganddi ADY (neu ei bod yn debygol bod ganddo/ganddi ADY), bydd

y Bil drafft yn rhoi’r disgresiwn iddo ddod â’r mater i sylw’r awdurdod lleol priodol os yw o’r farn mai dyna sydd orau i’r plentyn (a rhoi gwybod i riant y plentyn ei fod yn gwneud hynny).

Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau’n gynharach

Mae’r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a allai godi rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, a chyrff addysgol ar y llall (gan gynnwys cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol). Mae hyn yn cynnwys rhoi mynediad i gymorth i ddatrys anghytundeb gan berson annibynnol. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yn ymwybodol o’r trefniadau hyn. Mae datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i osgoi a datrys anghytundeb yn allweddol er mwyn cynyddu’r ymddiriedaeth sydd gan blant, pobl ifanc a rhieni yn y system a’i gwneud yn llai tebygol y byddant am arfer eu hawliau apelio ar lefel tribiwnlys.

Hawliau clir a chyson i apelio

Mae’r Bil drafft yn ailenwi ac yn ehangu cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig presennol Cymru i ddelio â phobl ifanc hyd at 25 oed. Caiff y Tribiwnlys ei ailenwi’n Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae’r Bil drafft yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau â chyfansoddiad y Tribiwnlys, ei aelodaeth a’i dâl a’i dreuliau. Mae’r enw newydd yn adlewyrchu nid dim ond ei rôl wrth benderfynu ar apeliadau mewn perthynas ag ADY ond hefyd y rôl a gyflawnir ar hyn o bryd gan Dribiwnlys AAA Cymru wrth benderfynu ar hawliau sy’n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion, swyddogaeth y bydd y Tribiwnlys Addysg yn dal i’w chyflawni. Ar hyn o bryd, dim ond plant a phobl ifanc a gofrestrir mewn ysgolion a gynhelir sydd â’r hawl i apelio i Dribiwnlys AAA Cymru mewn perthynas â’u ADY. Bydd y Bil drafft yn cyflwyno hawliau apelio tecach drwy ymestyn yr hawl hon i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy’n mynd i sefydliadau addysg bellach neu sefydliadau ôl-16 arbenigol.

Mae’r Bil drafft yn galluogi plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, neu riant plentyn, i apelio i’r Tribiwnlys Addysg yn erbyn:

a) penderfyniad ynghylch a oes gan berson anghenion dysgu ychwanegol;
b) penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen paratoi a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc;
c) disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person mewn cynllun datblygu unigol;
d) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir mewn cynllun datblygu unigol neu’r ffaith nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol wedi’i nodi mewn cynllun;
e) yr ysgol a enwir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben trefniadau derbyn neu’r math o ysgol neu sefydliad a nodir yn y cynllun;
f) pam na enwir ysgol neu sefydliad mewn cynllun datblygu unigol;
g) penderfyniad i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynllun datblygu unigol yn dilyn cais i ystyried gwneud hynny;
h) penderfyniad i beidio â diwygio cynllun datblygu unigol;
i) penderfyniad i roi’r gorau i gynnal cynllun datblygu unigol.

Er mai yn niffyg popeth arall y dylid defnyddio’r Tribiwnlys Addysg, bydd yr hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol sy’n gwneud penderfyniadau rhwymol yn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi ADY yn drylwyr ac yn ennyn hyder plant a’u rhieni a phobl ifanc. Bydd hefyd yn helpu i ofalu bod y dyletswyddau mewn perthynas â

dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n iawn; bydd yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc ac yn sicrhau mwy o degwch.

Bydd ehangu'r hawliau apelio i gynnwys dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn addysg bellach neu hyfforddiant yn helpu i greu sylfaen ar gyfer ystod oedran newydd y system (0-25) ac yn cyflawni ein hamcan craidd o greu dull tecach.

Cod gorfodol

Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar ADY. Bydd y Cod yn berthnasol i'r rheini sydd â swyddogaethau o dan y Bil drafft hwn a bydd yn gallu gosod:

- (lle nodir yn y Bil drafft) gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i gyrff perthnasol weithredu yn unol â nhw;
- canllawiau y bydd yn rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr eraill addysg a hyfforddiant roi sylw dyledus iddynt.

Bydd creu Cod fel hyn yn sicrhau bod yna gyfres o ffiniau clir, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, ar gyfer y system ADY, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o'u mewn. Bydd y Cod yn targedu ymarferwyr fel y gallant ddeall a gweithredu'r system ADY newydd.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried?**
**a**
**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae tri opsiwn sylfaenol wedi'u hystyried. Mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fanwl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft. I grynhoi, y tri opsiwn yw:

a) cynnal y trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA neu Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD);
b) disodli'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA neu AAD â system ADY ar sail cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn 2012. Mynd ati i ddiwygio'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA neu AAD (ar sail cynigion o ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2012); neu
c) disodli'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA neu AAD ag un system sy'n seiliedig ar ADY.

Y trydydd opsiwn sy'n cael ei ffafrio am mai hwnnw sy'n mynd i'r afael yn y ffordd orau â diffygion ac anfanteision y systemau presennol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Mae'r derminoleg bresennol yn difrïo plant a phobl ifanc ac yn gysylltiedig â system y mae angen ei diwygio'n gyfan gwbl.

- Mae'r rhaniad rhwng y rheini y mae angen datganiad AAA arnynt a'r rheini nad oes angen datganiad o'r fath arnynt yn aneglur.

- Mae'r diffyg meini prawf clir ynghylch pryd y dylid creu datganiad AAA ac i bwy yn arwain at anghysondeb rhwng awdurdodau lleol.

- Mae yna ganfyddiad nad yw’r Cod Ymarfer AAA presennol yn cael ei gymhwyso’n gydwybodol bob amser neu ei fod yn cael ei ddehongli’n wahanol mewn gwahanol awdurdodau lleol.
- Mae’n annheg bod y ddarpariaeth sy’n angenrheidiol i fynd i’r afael ag anghenion mwy cymhleth yn cael ei diogelu drwy ddatganiad ond nad yw’r ddarpariaeth sy’n ofynnol i fynd i’r afael ag anghenion llai cymhleth yn cael ei diogelu’n statudol.
- Yn aml, caiff yr ymddiriedaeth rhwng rhieni ac awdurdodau lleol neu ysgolion ei thanseilio ac mae hyn yn arwain at anghydfod.
- Mae’n anodd bod yn hyblyg gyda darpariaeth addysgol arbennig.
- Mae’r trefniadau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAD yn gallu amharu ar y broses bontio rhwng ysgolion ac addysg ôl-16 a gallai wneud system darpariaeth ôl-16 yn llai effeithlon nag y dylai fod.
- Nid yw’r ddeddfwriaeth gyfredol i ‘gymeradwyo’ a ‘chofrestru’ ysgol annibynnol i dderbyn disgyblion ag AAA yn darparu system effeithiol i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael neu i’w gwneud yn glir cyfrifoldeb pwy yw hynny.
- Mae rhai rhieni a theuluoedd yn teimlo eu bod wedi’u heithrio o’r prosesau sy’n ymwneud â datganiadau AAA. Maent yn eu hystyried yn ddryslyd, yn fiwrocrataidd ac yn aneffeithiol.
- Mae rhieni hefyd yn dweud, hyd yn oed pan fydd gan eu plentyn ddatganiad, os yw eu hanghenion yn newid, neu os yw’r cyflwr yn gwaethygu neu’n gwella, ei bod yn gallu cymryd yn rhy hir i’r system addasu.
- Mae tystiolaeth o adroddiadau Estyn ac adolygiadau eraill o bolisi AAA wedi nodi bod gwaith amlasiantaethol yn gallu bod yn wan ac aneffeithiol.
- Nid yw problemau yn cael eu nodi mor fuan ag a fyddai’n bosibl bob amser, ac yn yr un modd, mae’r ymyrraeth yn gallu cymryd amser i’w drefnu.
- Mae’r gefnogaeth benodol sydd ei hangen ar blant a’u teuluoedd yn gallu dod yn rhy hwyr, a hynny heb reswm.
- Nid yw’r rôl gydlynu bwysig a gyflawnir gan Gydlynwyr AAA wedi’i diffinio’n dda iawn ac mae’n amrywio’n sylweddol.
- Yn achos plant sy’n derbyn gofal, dim ond un o lawer o asesiadau yw’r asesiad statudol o AAA, ac nid yw’r gwahanol brosesau wedi’u hintegreiddio’n dda iawn.
- Mae’r trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor yn amrywio ledled Cymru, o ran eu natur a’u heffeithiolrwydd.
- Nid yw’r trefniadau presennol ar gyfer datrys anghytundeb yn ddigon cadarn i sicrhau bod anghytundebau yn cael eu datrys yn gyflym neu’n cael eu hosgoi’n llwyr.
- Mae’r ffaith nad oes yna broses apelio mewn perthynas â’r gefnogaeth a roddir i blant a phobl ifanc ag AAA, ond sydd heb ddatganiad, yn gallu eu rhoi o dan anfantais annheg.

O beidio â gweithredu'r Bil drafft, yr effaith fyddai bod y diffygion a'r anfanteision hyn yn parhau.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Iaith fyw: Iaith byw?**

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Iaith fyw: Iaith byw' yn nodi: '*Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol wrth greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol - ar y cyd ag annog y defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd.'*

Mae 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais o gael gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r isadeiledd addysg. Ei nod yw sicrhau bod y system addysg yn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddysgwyr o bob oedran feithrin amrywiaeth ehangach o sgiliau iaith yn y Gymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle.

Yr amcan strategol cyntaf y mae am ei hyrwyddo yw:

*Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.*

Fel rhan o'r broses, bydd Llywodraeth Cymru yn:

*Disgwyl gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.*

Bydd y Bil drafft hwn yn sicrhau y cynllunnir yn well ar gyfer anghenion dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rheini sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bodlonir eu hanghenion yn well, a hefyd bod darpariaeth i fodloni ystod ehangach o anghenion yn cael ei diogelu'n statudol.

At hyn, ers pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n ofynnol erbyn hyn i bob awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gymeradwyo (neu beidio) gan Weinidogion Cymru. Cynlluniau 3 blynedd yw'r rhain y mae gofyn i awdurdodau lleol eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r cynlluniau cyfredol sydd wedi'u cymeradwyo yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014 a 2017.

Wrth lunio eu cynlluniau, mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys, ymhlith elfennau eraill:

> "datganiad yn nodi strategaeth yr awdurdod lleol o ran sut y bydd yn gwella addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion y mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt sy'n deillio o unrhyw anhawster y mae y disgybl yn ei gael wrth ddysgu mewn perthynas â disgyblion eraill sydd o'r un oedran nad ydynt

yn cael unrhyw anhawster wrth ddysgu"

Mae Gweinidogion Cymru wedi anfon canllawiau at awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ganolbwyntio ar y canlynol:

- archwiliadau rheolaidd o ddarpariaeth ADY Gymraeg;
- y fethodoleg ar gyfer asesu'r galw am ddarpariaeth ADY Gymraeg;
- trefniadau ar gyfer cydgysylltu â rhieni fel rhan o'r trefniadau asesu anghenion;
- cynlluniau ar gyfer datblygu darpariaeth ADY Gymraeg well drwy gydweithredu ag awdurdodau lleol eraill/ar lefel consortiwm.

Lle bydd yr archwiliadau a/neu'r asesiadau o'r galw yn dangos bylchau, mae disgwyl i awdurdodau lleol ddisgrifio'r camau y maent yn eu cynnig er mwyn eu pontio.

Mae'r gofynion o ran Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sefydlu fframwaith statudol y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i wella'r broses o gynllunio a darparu'r cymorth dysgu ychwanegol i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Maent felly yn ategu amcanion y Bil drafft.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**
h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Bydd y Bil drafft yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd yna fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer pawb rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY; proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol a system deg a thryloyw ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau. Nid ydym yn nodi unrhyw effeithiau negyddol ar siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, na gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Y rhanddeiliaid yw'r dysgwyr, y rhieni, yr athrawon, Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig/Ychwanegol, seicolegwyr addysgol a darparwyr gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector sy'n helpu dysgwyr a'u rhieni.

Caiff y lle canolog ei roi i'r dysgwr a bydd hyn o fudd i'r rheini a gaiff eu haddysgu drwy'r Gymraeg yn ogystal â'r rheini na chânt eu haddysgu drwy'r Gymraeg.

Bydd y Cod a gaiff ei lunio pan weithredir y newidiadau deddfwriaethol yn rhoi sylw i fuddiannau siaradwyr Cymraeg, ac yn benodol y rheini sydd ag ADY sy'n dysgu drwy'r Gymraeg. Caiff fersiwn ddrafft o'r Cod ei gyhoeddi yn yr hydref. Wrth fireinio'r Cod, byddwn yn ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli'r sector cyfrwng Cymraeg a rhoddir ystyriaeth lawn i'w safbwyntiau. Er nad yw'r testun wedi'i gwblhau'n derfynol a'i gymeradwyo, mae'n debygol y bydd y Cod drafft yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Yn eu hymwneud â phlant, eu rhieni a phobl ifanc, bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol gyflawni eu dyletswyddau deddfwriaethol. Yng nghyd-destun Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu darparu'n ddwyieithog yn unol â Safonau perthnasol y Gymraeg, yn ôl anghenion a dymuniadau'r disgybl a'i riant. Bydd yn rhaid trefnu'r gwasanaethau i hwyluso hyn a dylai'r gwasanaethau Cymraeg a Saesneg fod yn union yr un fath â'i gilydd ac o'r un ansawdd. Bydd yn rhaid cynnig darpariaeth gyfartal yn y ddwy iaith yn achos pob gwasanaeth, a rhaid i'r cyrff perthnasol hefyd ofalu eu bod yn cyfathrebu â'r rhieni yn eu dewis iaith.

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cefnogi'r Gymraeg. Yn sgil y Mesur, ailddatganwyd statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, sefydlwyd yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gwnaed darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a gwnaed darpariaeth ynghylch safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

- Yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol a gyflwynir i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol amlinellu'r agweddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn perthynas â'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, yn unol â dewis iaith y rhieni o ran darpariaeth addysgol a chymorth addysgol. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae gan rieni sydd am i'w plant gael eu haddysg drwy'r Gymraeg yr hawl i fynegi'r dymuniad hwnnw. Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw i'r dymuniad hwnnw.

- Yn ogystal â chynnwys yr elfennau hyn yn y Cod, mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect arall sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu a datblygu capasiti mewn perthynas â darparu gwasanaethau addysgol i blant a phobl ifanc ag ADY/AAA. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Bydd y gwaith hwn yn helpu i weithredu'r system newydd a amlinellir yn y Bil drafft ac yn sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu yn y Gymraeg i'r graddau sy'n bosibl. Mae yna waith arall yn mynd rhagddo hefyd i ystyried i ba raddau y mae athrawon arbenigol yn gallu cynnig darpariaeth arbenigol drwy'r Gymraeg.

| |
|---|
| **Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol) |
| Mae asesiad effaith llawn wedi'i gwblhau. |
| **Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?** e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? |
| Bydd cyhoeddi'r Bil drafft a'r Cod drafft yn gyfle i randdeiliaid roi eu sylwadau ynghylch yr effaith debygol ar ein cynigion o ran y Gymraeg. |
| |

| CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU |
|---|
| <u>**Crynodeb o'r Asesiad Effaith**</u><br>**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.** |
| **Effeithiau cadarnhaol:** |
| Bydd y cynigion deddfwriaethol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag ADY sy'n astudio drwy'r Gymraeg gan y bydd yn sicrhau mynediad mwy amserol ac effeithiol i ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a'r rhiant/gofalwr. |
| **Effeithiau negyddol:** |
| Ni fydd y cynigion deddfwriaethol yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr ag ADY sy'n astudio drwy'r Gymraeg. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?** |
| Mae i'r Cod y potensial i helpu i feithrin mwy o wasanaethau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag ADY. |
| **Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:** |
| Tystiolaeth a ddefnyddiwyd:<br><br>Adroddiad 'Cydnabod Angen' gan Brifysgol Bangor, a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith ar anghenion addysgol arbennig Cymraeg a dwyieithog.<br><br>• Defnyddiwyd ystadegau ar nifer y dysgwyr ag ADY sy'n astudio drwy'r Gymraeg i asesu'r effaith bosibl<br>• Ystadegau ar nifer yr athrawon Cymraeg sy'n gweithio yn y brif ffrwd, yn addysg y blynyddoedd cynnar ac mewn addysg bellach<br>• Ystadegau ar nifer y Cydlynwyr AAA sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i Arolwg Bwrdd yr Iaith o Ddarpariaeth Gymraeg a Dwyieithog i Ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. Lluniwyd y cynllun gweithredu hwn yn 2006.<br><br>Mae cyfran y dysgwyr sydd ag AAA ac sy'n dysgu drwy'r Gymraeg ychydig yn is na chyfran y dysgwyr sydd ag AAA ac sy'n astudio drwy'r Saesneg. |

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?** | Cadarnhaol: ☒<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ |

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐ |

| | |
|---|---|
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,*** **atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Caiff yr asesiad effaith hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r Bil. Caiff fersiwn ddrafft o'r Cod ei chyhoeddi yn yr hydref.

**CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO**

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Wrth ddatblygu'r Bil drafft, ystyriwyd pob ymateb a ddaeth i law yn sgil ymgyngoriadau blaenorol. Caiff unrhyw adborth a ddaw i law ar y Bil drafft, y Cod drafft a'r dogfennau cysylltiedig eu hystyried a chânt eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi.

**Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

Wrth ddatblygu'r polisi, rhoddir mwy o sylw i fanylion y cynllun gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r effeithiau a ddaw i'r amlwg yn sgil gweithredu'r polisi, gan gynnwys yr effaith ar y Gymraeg.

**Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?**

Wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, rhoddir ystyriaeth bellach i'r effaith ar y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Asesiad Effaith ffurfiol er mwyn mesur effeithiau posibl y polisi maes o law.

**Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg**

## 4. Datganiad

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>**Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
| Adran: |
| Y Gangen Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, yr Adran Addysg a Sgiliau |
| Dyddiad(au): |
| Fe’i hadolygwyd ddiwethaf ym Mehefin 2015 |
| Dyddiadau adolygu:<br>Mawrth 2016 |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau’r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad Mehefin 2015 |
| | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |